

Rhif: WG42400



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Cynyddu Ailgylchu ymhlith Busnesau yng Nghymru

Cynigion ar gyfer Offerynnau Statudol o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

Mawrth 2021

**Cynnwys:**

1. Y polisi
2. Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi
3. Yr hyn a ddywedoch chi wrthym ni
4. Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf – a phryd

Atodiad – Manylion ymatebwyr i'r ymgynghoriad

## 1. Y Polisi – Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn darparu trosolwg o'r ymatebion i'r [ymgyngoriad](#) o'r enw 'Cynyddu Ailgylchu ymhlith Busnesau yng Nghymru – Cynigion ar gyfer Offerynnau Statudol o dan [Ran IV](#) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a [Mesur Gwastraff \(Cymru\) 2010](#)'.

### 1.1. Cefndir

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 12 wythnos rhwng 23 Medi a 13 Rhagfyr 2019. Roedd yn nodi cynigion i ddwyn ger bron yr offerynnau statudol (OSau) ar gyfer ailgylchu mwy o wastraff eiddo annomestig fel busnesau a'r sector cyhoeddus yng Nghymru. O dan yr OSau:

- Bydd yn ofynnol i ddeiliaid eiddo annomestig (fel busnesau, elusennau a chyrff sector cyhoeddus) roi deunyddiau ailgylchadwy penodol allan i'w casglu wedi'u gwahanu oddi wrth ei gilydd ac wedi'u gwahanu oddi wrth wastraff arall;
- Bydd yn ofynnol i'r rheini sy'n casglu'r deunyddiau eu casglu mewn casgliadau ar wahân a'u cadw ar wahân;
- Gwaherddir llosgi a thirlenwi deunyddiau ailgylchadwy a gesglir ar wahân;
- Cychwynnir gwahardd eiddo busnes rhag taflu gwastraff bwyd i garthffosydd;
- Darperir cosbau sifil am droseddau sy'n gysylltiedig â'r gofynion uchod.

## 2. Yr hyn wnaethom ni ei ofyn i chi

### 2.1 Beth sy'n cael ei gynnig

Rydym ni'n cynnig cyflwyno deddfwriaeth i wneud y canlynol:

- Ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid pob eiddo annomestig fel busnesau (gan gynnwys ffermydd a safleoedd adeiladu), elusennau, a chyrff sector cyhoeddus (gan gynnwys ysbytai, carchardai ac ysgolion) gyflwyno deunyddiau ailgylchadwy penodol i'w casglu wedi'u gwahanu oddi wrth ei gilydd ac eithrio (a) papur a cherdyn, a (b) metel a phlastig, y gellir eu cyflwyno gyda'i gilydd. Rhaid cyflwyno deunyddiau ailgylchadwy i'w casglu wedi'u gwahanu oddi wrth wastraff arall. Ni fydd trothwy de minimis ar gyfer cynhyrchwyr gwastraff busnes lle na fyddai gofyniad i gyflwyno gwastraff wedi'i wahanu ar gyfer ei gasglu yn berthnasol, ac eithrio safleoedd sy'n cynhyrchu llai na 5kg yr wythnos o wastraff bwyd. Ni fydd yn ofynnol i safleoedd o'r fath wahanu gwastraff bwyd i'w gasglu ar wahân;
- Ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n casglu deunyddiau ailgylchadwy penodol o eiddo o'r fath (fel busnesau rheoli gwastraff neu Awdurdodau Lleol) i'w casglu ar wahân a'u cadw ar wahân hyd nes y byddant wedi eu trin;
- Gwahardd anfon deunyddiau ailgylchadwy a gesglir ar wahân i'w llosgi a'u tirlenwi;

- Cychwyn y gwaharddiad ar daflu gwastraff bwyd o eiddo busnes i garthffosydd (heb unrhyw esemptiad ar gyfer unrhyw wastraff bwyd sy'n cael ei drin gan dechnolegau triniaeth penodedig).

Dyma'r deunyddiau ailgylchadwy a fydd yn cael eu gwahanu cyn eu cyflwyno i'w casglu, ac yna i'w casglu ar wahân:

- gwastraff bwyd o safleoedd sy'n cynhyrchu mwy na 5kg/wythnos;
- gwydr;
- cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (WEEE);
- tecstilau.

Gellir cyflwyno'r deunyddiau ailgylchadwy canlynol gyda'i gilydd:

- papur a cherdyn;
- metel a phlastig.

Ni fydd rheolwyr cyfleusterau llosgi a chyd-losgi yn cael derbyn y deunyddiau penodol uchod a gasglwyd ar wahân yn eu cyfleusterau.

Yn ogystal â'r deunyddiau uchod sy'n cael eu casglu ar wahân, ni fydd rheolwyr cyfleusterau tirlenwi yn cael derbyn gwastraff pren yn eu cyfleusterau.

Er mwyn rhoi amser i fusnesau a deiliaid eiddo annomestig eraill baratoi ar gyfer y newidiadau, rydym wedi cynnig bod y dyletswyddau hyn yn dod i rym ym mis Hydref 2021. Fodd bynnag, mae deddfu eisoes wedi digwydd ar gyfer rhai o'r newidiadau arfaethedig; ym mis Hydref 2020, trosodd pedair gwlad y DU rannau perthnasol o Becyn Economi Gylchol yr UE 2018 yn gyfraith o dan Reoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020<sup>1</sup>. Yr elfennau perthnasol yn bennaf yw:

- Rhaid i reolwyr cyfleusterau llosgi neu safleoedd tirlenwi beidio â derbyn:
  - (a) unrhyw bapur gwastraff, metel, plastig neu wydr os yw'r gwastraff hwnnw wedi'i gasglu ar wahân at ddibenion paratoi i aildddefnyddio neu ailgylchu;
  - a
  - (b) unrhyw wastraff ar gyfer llosgi neu dirlenwi sy'n deillio o drin gwastraff y cyfeirir ato ym mharagraff (a), oni bai bod llosgi neu dirlenwi'r gwastraff hwnnw yn sicrhau'r canlyniad amgylcheddol gorau.

Hefyd, bydd angen ystyried a diwygio Rheoliad 13 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, fel y'i diwygiwyd gan reoliad 15 o Reoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020, mewn perthynas â'i berthnasedd i eiddo annomestig.

---

<sup>1</sup> <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2020/904/contents/made>

## 2.2. Y cwestiynau a ofynnwyd gennym

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol:

- C1 Ydych chi'n credu bod y lefel o wahanu y gofynnir i fusnesau ei wneud yn dderbyniol? Os nad ydych, esboniwch pam a rhowch gynnig gwahanol.
- C2 Ydych chi'n cytuno â'r deunyddiau sy'n cael eu cynnig? Os nad ydych, esboniwch pam.
- C3 A oes isffracsiynau o'r deunyddiau penodedig y dylid naill ai eu cynnwys neu eu hepgor o'r gofyniad i'w casglu ar wahân a'u cadw ar wahân (er enghraifft, papur halogedig). Os oes, nodwch pam.
- C4 Ydych chi'n credu bod yr amserau ar gyfer paratoi ar gyfer y cynigion yn rhesymol? Os nad ydych, faint o gyfnod paratoi fyddech chi'n ei awgrymu fel arall?
- C5 A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am effaith y cynigion hyn (er enghraifft, effaith ar eich sefydliad chi)?
- C6 Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'n cynigion i gael busnesau i ailgylchu mwy o wastraff yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith y byddent yn ei chael o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?
- C7 Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y cynigion er mwyn cael effeithiau positif, neu fwy o gyfleoedd positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, o ran peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- C8 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

## 2.3 Yr Ymatebwyr

Derbyniwyd 100 o ymatebion gan 96 o sefydliadau gwahanol. Cyflwynodd rhai fwy nag un ymateb, neu ymatebodd canghennau gwahanol o sefydliad ar wahân. Ceir rhestr lawn o'r rhai a ymatebodd yn yr Atodiad, ac fe'u crynhoir yn ôl y math o sefydliad yn Nhabl 1.

Tabl 1: Nifer yr ymatebion yn ôl y math o sefydliad.

Math	Nifer yr Ymatebwyr	Canran yr Ymatebwyr (%)
Busnes	30	31.3
Unigolyn	12	12.5
Awdurdod Lleol	12	12.5
Corff Anllywodraethol	8	8.3
Corff Cyhoeddus Arall	17	17.7
Corff Proffesiynol	1	1.0
Cymdeithas Fasnach	16	16.7
Cyfanswm	96	100

Ymatebodd 5 o'r 7 Bwrdd Iechyd Lleol (gan gynnwys o dan 'Gorff Cyhoeddus Arall' yn Nhabl 1) a 12 o'r 22 Awdurdod Lleol. Roedd 61% o'r ymatebwyr wedi'u lleoli yng Nghymru. Rhannwyd yr ymatebion rhwng y rhai a ddefnyddiodd y ffurflen ymateb ar-lein a'r rhai a e-bostiodd eu hymatebion yn uniongyrchol.

## Yr hyn a ddywedoch chi wrthym ni

### 3.1 Argraffiadau cyffredinol

Roedd agwedd gadarnhaol gyffredinol at yr egwyddorion roedd y cynigion yn ceisio'u cyflawni, h.y. y dylai fod yn ofynnol i fusnesau a'r sector cyhoeddus wahanu eu gwahanol ffrydiau gwastraff.

Roedd naws gadarnhaol cyffredinol hefyd o ran sut y byddai hyn yn helpu Cymru i symud ymlaen i reoli ei hadnoddau'n fwy effeithiol.

### 3.2 Trosolwg o'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad.

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion ac yn nodi nifer yr ymatebion "Ydw/Oes", "Nac ydw/Nac oes", ac "Arall", a'r olaf yw lle mae'r ymatebion yn fwy cymhleth a heb fod yn ateb "ydw/oes" neu "nac ydw/nac oes" clir. Mewn rhai achosion, atebwyd cwestiynau gyda bloc o destun ac nid oedd pob un ohonynt yn cynnwys 'ydw/oes' neu 'nac ydw/nac oes' yn eu hatebion, ac yn yr achosion hynny, casglwyd un o'r tri chategori o'r ateb a roddwyd.

Ni wnaed unrhyw ddadansoddiad ystadegol oherwydd y nifer isel o ymatebion mewn rhai categorïau.

Crynoir y prif themâu sy'n deillio o'r ymatebion isod.

## Cwestiwn 1: Ydych chi'n credu bod y lefel o wahanu y gofynnir i fusnesau ei wneud yn dderbyniol?

Mae'r gwaith modelu (wedi'i gwblhau gan Eunomia Research and Consulting) yn rhagweld bod y manteision amgylcheddol ac ariannol gorau yn cael eu darparu trwy fabwysiadu lefel gymedrol o wahanu, hynny yw gofyniad i fusnesau gyflwyno gwastraff bwyd a phum ffrwd o ddeunydd ailgylchadwy sych ((i) papur a cherdyn; (ii) metel a phlastig; (iii) gwydr; (iv) tecstilau; (v) cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (WEEE)) ar wahân ar gyfer eu casglu ac i'r rhai sy'n casglu'r gwastraff ddarparu gwasanaeth i gasglu'r ffrydiau hyn a'u cadw ar wahân. Byddai gwaharddiadau ar wastraff bwyd i garthffosydd a thirlenwi a gwaharddiadau llosgi ar gyfer deunyddiau sy'n cael eu casglu ar wahân. Nodwyd hyn yn y ddogfen ymgynghori fel yr opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

Darperir yr ymatebion i Gwestiwn 1, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a ymatebodd, yn Nhabl 2.

*Tabl 2: Ymatebion, yn ôl y math o sefydliad, i Gwestiwn 1 – Ydych chi'n credu bod y lefel o wahanu y gofynnir i fusnesau ei wneud yn dderbyniol?*

Math o sefydliad	Nifer yr ymatebion			
	Ydw	Nac ydw	Arall	Cyfanswm ymatebion
Busnes	20	6	4	30
Unigolyn	9	2	2	13
Awdurdod Lleol	7	4	3	14
Corff Anllywodraethol	4	4	1	9
Corff Cyhoeddus Arall	7	5	5	17
Corff Proffesiynol	1	0	0	1
Cymdeithas Fasnach	6	4	6	16
Cyfansymiau	54	25	21	100

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n fras bod lefel y gwahanu a ofynnir gan fusnesau yn dderbyniol.

Roedd yn well gan y rhai a ymatebodd yn negyddol ar y cyfan raddfa is o wahanu (h.y. Opsiwn 2). Mynegodd yr ymatebwyr hyn amrywiaeth o bryderon. Roedd y pryderon allweddol yn cynnwys:

- Diffyg lle ar gyfer biniau, naill ai o fewn busnesau neu ar briffyrdd cyhoeddus; cost ac ymdrech biniau ar wahân yn ddiangen o ystyried lefel y gwastraff. Roedd yr ymatebwyr a fynegodd y farn hon yn cynnwys saith Awdurdod Lleol.
- Bydd cost biniau newydd i fusnesau, a chost cerbydau newydd a chapasiti didoli a phrosesu i Awdurdodau Lleol a busnesau gwastraff yn afresymol o

ddrud. Roedd yr ymatebwyr a fynegodd y safbwynt hwn yn cynnwys dau Awdurdod Lleol a thri Bwrdd Iechyd.

- Bydd lefel y gwahanu yn rhy ddryslyd, neu'n ormod o ymdrech, ac felly'n gostwng cyfraddau ailgylchu.
- Ni ddylai lefel y gwahanu fod yn berthnasol mewn lleoliadau clinigol oherwydd diffyg lle difrifol ar wardiau, a'r baich y bydd yn ei roi ar staff clinigol ac adnoddau ysbytai. Roedd chwe Bwrdd Iechyd wedi nodi hyn fel pryder mawr (gweler yr ymateb i gwestiwn 5).

Amlygodd ymatebion negyddol eraill y diffyg marchnad ar gyfer rhai deunyddiau eildro, a mynegwyd pryderon ynghylch gorfodi/plismona gwahanu gwastraff. Roedd pedwar ymateb negyddol wedi mynegi dymuniad ar gyfer lefel uwch o wahanu isffrasiynau plastig a phren gwastraff.

## Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'r deunyddiau sy'n cael eu cynnig?

Dyma'r deunyddiau ailgylchadwy sydd i'w pennu ar gyfer casglu ar wahân a'u gwahardd rhag llosgi a thirlenwi: papur, cerdyn, plastig, metel, gwydr, bwyd, tecstilau a chyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (WEEE). Bydd gwastraff pren sy'n cael ei gasglu ar wahân yn cael ei wahardd rhag tirlenwi yn unig.

Darperir yr ymatebion i Gwestiwn 2, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a ymatebodd, yn Nhabl 3.

*Tabl 3: Ymatebion, yn ôl math o sefydliad, i Gwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno â'r deunyddiau sy'n cael eu cynnig?*

Math o sefydliad	Nifer yr ymatebion			
	Ydw	Nac ydw	Arall	Cyfanswm ymatebion
Busnes	19	3	7	29
Unigolyn	8	2	0	10
Awdurdod Lleol	7	1	4	12
Corff Anllywodraethol	9	0	0	9
Corff Cyhoeddus Arall	10	1	3	14
Corff Proffesiynol	1	0	0	1
Cymdeithas Fasnach	5	2	4	11
Cyfansymiau	59	9	18	86

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r ffocws ar y deunyddiau a gynigiwyd, er bod rhai'n awgrymu y dylid ychwanegu pren gwastraff fel deunydd i'w wahanu.

Roedd chwarter yr ymatebwyr yn anghytuno â'r deunyddiau arfaethedig – rhai'n meddwl bod rhai deunyddiau a gynigiwyd yn ddiangen, ac eraill yn meddwl y dylid



ystyried cynnwys deunyddiau ychwanegol. Nid oedd unrhyw wahaniaeth clir o ran ymateb rhwng y categorïau o ymatebwyr.

**Cwestiwn 3: C3 A oes isffracsiynau o'r deunyddiau penodedig y dylid naill ai eu cynnwys neu eu hepgor o'r gofyniad i'w casglu ar wahân a'u cadw ar wahân (er enghraifft, papur halogedig). Os oes, nodwch pam.**

Darperir yr ymatebion i Gwestiwn 3, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a ymatebodd, yn Nhabl 4.

*Tabl 4: Ymatebion, yn ôl y math o sefydliad, i Gwestiwn 3 – A oes isffracsiynau o'r deunyddiau penodedig y dylid naill ai eu cynnwys neu eu hepgor o'r gofyniad i'w casglu ar wahân a'u cadw ar wahân?*

Math o sefydliad	Nifer yr ymatebion			
	Ydw	Nac ydw	Arall	Cyfanswm ymatebion
Busnes	16	4	4	24
Unigolyn	6	1	0	7
Awdurdod Lleol	10	0	1	11
Corff Anllywodraethol	7	0	0	7
Corff Cyhoeddus Arall	5	3	6	14
Corff Proffesiynol	0	0	0	0
Cymdeithas Fasnach	4	0	6	10
Cyfansymiau	48	8	17	73

Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr o'r farn y dylid naill ai cynnwys neu eithrio isffracsiynau deunydd penodol. Er enghraifft, nododd busnes casglu gwastraff y dylid casglu gwydr plât a photeli gwydr ar wahân, a nododd Corff Anllywodraethol y dylid casglu plastigion caled a meddal ar wahân, gan gyfiawnhau gwahanu'r isffracsiynau hyn oherwydd y byddai'n darparu deunydd eildro o ansawdd uwch, sy'n destun pris uwch ar y farchnad.

Roedd halogi deunyddiau â bwyd (e.e. poteli a chaniau, deunydd pacio cludfwyd cardbord) yn broblem gyffredin a fynegwyd. Nodwyd y byddai trafodaethau gyda'r rhai sy'n gyfrifol am ailbrosesu'r deunyddiau hyn yn ddymunol wrth i'r polisi gael ei ddatblygu.

Roedd rhai pryderon am heriau penodol a fyddai'n cael eu hwynebu gan sectorau arbenigol, e.e. deunydd lapio silwair halogedig yn y sector amaethyddol.

Nododd y sector gofal iechyd yr her benodol a fyddai'n ei wynebu unwaith eto – byddai gwahanu pob ffrwd o wastraff yn arwain at rai heriau mawr o ran peryglon

iechyd. Byddai angen canllawiau clir ar y sector hwn, wedi'u cytuno gyda'r GIG yng Nghymru.

#### **Cwestiwn 4: Ydych chi'n credu bod yr amserau ar gyfer paratoi ar gyfer y cynigion yn rhesymol?**

Er mwyn caniatáu i fusnesau baratoi ar gyfer y newidiadau, fe wnaethom gynnig y dylai'r dyletswyddau ddod i rym ym mis Hydref 2021, ar wahân i'r elfennau hynny y mae angen eu cyflwyno'n gynharach i wireddu ein hymrwymiaadau eraill yn ymwneud â deddfwriaeth newydd yr UE, fel yr esbonnir yn adran 2.1 uchod.

Darperir yr ymatebion i Gwestiwn 4, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a ymatebodd, yn Nhabl 5.

*Tabl 5: Ymatebion, yn ôl y math o sefydliad, i Gwestiwn 4 - Ydych chi'n cytuno bod yr amserau ar gyfer paratoi ar gyfer y cynigion yn rhesymol?*

Math o sefydliad	Nifer yr ymatebion			
	Ydw	Nac ydw	Arall	Cyfanswm ymatebion
Busnes	16	6	6	28
Unigolyn	5	2	1	8
Awdurdod Lleol	7	6	1	14
Corff Anllywodraethol	8	0	1	9
Corff Cyhoeddus Arall	5	9	2	16
Corff Proffesiynol	1	0	0	1
Cymdeithas Fasnach	6	2	6	14
Cyfansymiau	48	25	17	90

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr o'r farn bod yr amserlen yn rhesymol. Roedd busnesau, cyrff masnach a chyrrff anllywodraethol yn cefnogi'r amserlen i raddau helaeth, ond roedd llai o gefnogaeth gan gyrrff cyhoeddus eraill. Roedd barn gymysg ymysg yr Awdurdodau Lleol.

Nododd nifer o ymatebwyr y byddai angen canllawiau a chymorth clir ar y rhai y mae'r Rheoliadau'n effeithio arnynt i fodloni'r gofynion.

Roedd contractau presennol yn peri problem i rai Awdurdodau Lleol a ymatebodd, gan nodi y byddai'n anodd newid contractau presennol pan nad oes cyllideb Awdurdod Lleol wedi'i phennu ar gyfer y mater hwn ar hyn o bryd y tu hwnt i barhau â'r sefyllfa bresennol. Nododd sawl ymatebydd fod casglwyr gwastraff busnes Awdurdodau Lleol yn tueddu i bennu prisiau blynyddol ym mis Ebrill ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn yr un modd, mae'n bosibl bod llawer o fusnesau wedi eu cloi i gontractau hirdymor gyda chyflenwyr casglu gwastraff preifat.

Awgrymodd Awdurdodau Lleol a ymatebodd y byddai cyfathrebu â Llywodraeth Cymru yn allweddol i weithredu'n llwyddiannus.

Nodwyd bod trefniadau casglu ymyl y ffordd presennol awdurdodau lleol yn cynnig sail gadarn iawn i'w hystyngiadau i fusnesau a thu hwnt – cyn belled â bod y deunyddiau i'w casglu yn adlewyrchu'r rhai sydd eisoes yn cael eu casglu. Nodwyd bod angen trafod cysondeb gyda llywodraeth leol ac egluro'r mater hwn yn glir.

O ran BBaChau (busnesau bach a chanolig – sy'n ffurfio'r mwyafrif llethol o fusnesau yng Nghymru), cafwyd apêl am gymorth ac arweiniad.

### **Cwestiwn 5: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am effaith y cynigion hyn (er enghraifft, effaith ar eich sefydliad chi)?**

Bydd y cynigion yn effeithio ar nifer o gyfranogwyr:

- Bydd angen i **gynhyrchwyr annomestig gwastraff**, fel busnesau, y sector cyhoeddus ac elusennau, wahanu'r deunyddiau ailgylchadwy penodol yn eu heiddo.
- Ni fydd **y rhai hynny sy'n gwaredu bwyd gwastraff i garthffosydd**, fel busnesau lletygarwch a sefydliadau sector cyhoeddus, yn cael gwneud hynny mwyach a bydd yn rhaid iddynt roi'r bwyd allan ar gyfer ei gasglu ar wahân.
- Bydd gofyn i **gasglwyr gwastraff**, fel cwmnïau rheoli gwastraff ac Awdurdodau Lleol, gasglu'r ffrydiau deunydd o eiddo annomestig trwy gasgliadau ar wahân a'u hailgylchu yn hytrach na'u defnyddio i adfer ynni neu eu gwaredu trwy dirlenwi. Cânt eu gwahardd rhag cymysgu'r deunyddiau wedi hynny.
- Ni fydd **rheolwyr cyfleusterau llosgi a chyd-losgi** yn gallu derbyn y deunyddiau penodol a gasglwyd ar wahân yn eu cyfleusterau.
- Ni fydd **rheolwyr cyfleusterau tirlenwi** yn cael derbyn y deunyddiau penodol a gasglwyd ar wahân yn eu cyfleusterau. Yn ogystal â'r deunyddiau a gasglwyd ar wahân, ni fydd rheolwyr cyfleusterau tirlenwi yn gallu derbyn gwastraff pren sydd wedi'i gasglu ar wahân yn eu cyfleusterau.
- Bydd **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)** yn rheoleiddio'r holl ofynion heblaw'r gwaharddiad i daflu gwastraff bwyd i garthffosydd.
- Bydd **Awdurdodau Lleol** yn rheoleiddio'r gwaharddiad ar eiddo annomestig i daflu gwastraff bwyd i garthffosydd.

Mae'r adran hon yn archwilio barn yr ymatebwyr ar sut y gallai'r cynigion effeithio ar wahanol sectorau o gymdeithas.

#### Yr effaith ar fusnesau

Mae'r canlynol yn grynodedd o'r materion a fynegwyd gan ymatebwyr ar effaith y cynigion ar y sector busnes:

- Un pryder allweddol a rannwyd gan lawer o ymatebwyr oedd cost biniau ychwanegol i fusnesau, a chost gynyddol bosibl casglu deunydd ailgylchu

oherwydd y gofynion gwahanu llymach. Mynegwyd y pryder hwn gan fusnesau mawr a bach, yn ogystal ag awdurdodau lleol, cyrff anllywodraethol ac unigolion.

- Pryder arall a fynegwyd yn aml oedd y diffyg lle ar gyfer biniau ychwanegol o fewn eiddo busnes. Cwestiynodd sawl ymatebydd pa mor ddoeth fyddai cael bin gwydr neu decstilau ar wahân os mai ychydig iawn o'r ffrydiau gwastraff hyn y mae busnes yn eu cynhyrchu.
- Mater a fynegwyd gan dri ymatebydd oedd y gallai biniau ychwanegol a symudiadau cerbydau (er enghraifft, mewn atyniadau i ymwelwyr fel safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) fod yn berygl iechyd a diogelwch neu dân, yn ogystal â bod yn annymunol yn weledol.
- Roedd ymatebwyr eraill yn ofni y byddai cefnogaeth perchnogion a staff busnesau yn cymryd amser, a bod y cyfnod pontio yn rhy fyr i gyflawni hyn. Fodd bynnag, ni fynegwyd y farn hon gan unrhyw fusnesau sy'n cynhyrchu gwastraff; dim ond tri Awdurdod Lleol ac un busnes casglu gwastraff a wnaeth hynny.
- Mynegodd eraill ddryswch ynghylch cyfrifoldeb am wahanu a pha fusnesau a oedd yn cael eu cynnwys. Er enghraifft, roedd cymdeithas fasnach o'r farn na ddylid cosbi gweithredwyr parciau gwyliau am fethiant cwsmeriaid i wahanu gwastraff (dylid nodi bod carafanau'n cael eu dosbarthu fel safleoedd domestig ac felly ni fydd gofynion eiddo annomestig yn berthnasol iddynt). Cafwyd ceisiadau i eithrio gwarchodwyr plant o'r diffiniad o fusnes, ac i gynnwys marchnadoedd a gwyliau.
- Mynegwyd sawl mater sy'n benodol i'r gymuned ffermio. Dywedodd NFU Cymru fod ffermwyr ar hyn o bryd yn anfon deunydd lapio plastig (e.e. deunydd lapio silwair) i safleoedd tirlenwi neu losgi oherwydd diffyg opsiynau ar gyfer ailgylchu domestig, a mynegodd bryder y byddai'r gofyniad i ailgylchu'r ffrwd wastraff hon yn cael effaith ariannol ar ffermwyr. Soniwyd hefyd am fanteision a chostau posibl i ffermwyr o ran derbyn gwastraff bwyd domestig i'w dreulio'n anaerobig ar y fferm.
- Roedd un gymdeithas fasnach, y mae ei haelodau'n cynnwys gweithgynhyrchwyr gwaredwyr gwastraff bwyd domestig, yn pryderu am effaith y gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffosydd ar y busnesau hyn.

### Yr effaith ar Awdurdodau Lleol

Mae'r canlynol yn grynodedb o'r materion a fynegwyd gan ymatebwyr ar effaith y cynigion ar Awdurdodau Lleol.

- Roedd y gost i Awdurdodau Lleol yn bryder mawr i bum Awdurdod Lleol ac i fusnes gwastraff. Mynegodd ymatebwyr bryderon am gost cerbydau newydd, dulliau casglu newydd, cyfleusterau didoli a seilwaith newydd, hyfforddiant staff newydd a mesurau gorfodi a deunyddiau ymgysylltu newydd. Dywedodd rhai Awdurdodau Lleol y bydd yr incwm a dderbynnir o ailgylchu gan fusnesau yn ddibwys o ran yr hyn a gynhyrchir mewn ardaloedd gwledig, a'u bod yn ofni y byddai darparwyr gwastraff preifat mewn ardaloedd trefol yn codi prisiau

is na hwy, gan adael yr Awdurdod Lleol i wasanaethu'r ardaloedd gwledig drutach. Gofynnodd sawl Awdurdod Lleol am fwy o gymorth ariannol gan y llywodraeth ganolog i weithredu'r cynigion.

- Fodd bynnag, dywedodd tri Awdurdod Lleol y gallai fod effaith gadarnhaol o ran costau i Awdurdodau Lleol, trwy greu sefyllfa decach rhwng yr Awdurdod Lleol a darparwyr gwastraff preifat (drwy'r gofyniad cyffredinol i gasglu gwastraff ar wahân), a thrwy helpu Awdurdodau Lleol i gyrraedd eu targedau ailgylchu statudol.
- Dim ond un Awdurdod Lleol a nododd fod y diffyg gofod cyhoeddus ar gyfer biniau yn broblem bosibl.
- Roedd gorfodi'r rheoliadau yn bryder mawr i Awdurdodau Lleol, gyda deg Awdurdod Lleol a dau gorff cyhoeddus yn mynegi barn gref ar y pwnc. Ymholiad cyffredin oedd gan bwy y byddai'r cyfrifoldeb am orfodaeth busnesau'n gwahanu gwastraff a'r gwaharddiad ar losgi – gyda Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r Awdurdod Lleol. Teimlai rhai y dylai CNC ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb, a rhai yn teimlo mai'r Awdurdod Lleol a ddylai wneud. Roedd rhai o'r farn nad oedd costau llawn gorfodi yn y naill senario na'r llall wedi'u cyfrif yn briodol. Gofynnodd un ymatebydd i fusnesau fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion i archwilio eu casgliad gwastraff ag Awdurdodau Lleol. Yn gyffredinol, y farn oedd bod angen gorfodi clir a chryf yn gyffredinol.
- O ran gorfodi gwahardd gwastraff bwyd i garthffosydd, mae pryder ynghylch yr effaith ar gostau i'r Awdurdodau Lleol, ac a oes gan arolygwyr bwyd yr amser a'r adnoddau angenrheidiol i weithredu'r gwaharddiad. Gofynnwyd am arweiniad a chefnogaeth gan y llywodraeth. Credai dau Awdurdod Lleol y dylai Dŵr Cymru orfodi'r gwaharddiad.
- Roedd pryderon eraill yn ymwneud â gostyngiad mewn cyfranogiad a'r niwed i enw da Awdurdodau Lleol a fyddai'n deillio o hynny; diffyg galw am ddeunyddiau ailgylchu/ansefydlogrwydd marchnadoedd deunyddiau; ac a ellid colli casgliadau gwastraff heb gosb mewn rhai amgylchiadau eithriadol (e.e. digwyddiadau tywydd eithafol).

### Yr effaith ar fusnesau casglu gwastraff

Isod, ceir crynodeb o'r materion a fynegwyd gan ymatebwyr ar effeithiau'r cynigion hyn ar fusnesau casglu (a phrosesu) gwastraff:

- Soniodd dau fusnes casglu gwastraff, dau Awdurdod Lleol ac un corff anllywodraethol am gost cerbydau, staff a chyfleusterau casglu a didoli (gwaith) newydd i fusnesau casglu gwastraff.
- Credai dwy gymdeithas fasnach ac un busnes y gallai gael effaith gadarnhaol ar gostau trwy gynyddu ansawdd deunydd eildro; fodd bynnag, credai busnes casglu gwastraff ac Awdurdod Lleol na fyddai digon o alw am ddeunydd eildro. Gofynnodd Ffederasiwn Plastigion Prydain am ddiffiniad clir o ba blastigau a fydd yn cael eu casglu o dan y cynnig, gan nodi y dylid casglu pob

math o blastig (gan gynnwys potiau, hambyrddau a thybiau a phlastig ystwyth) er mwyn peidio â rhwystro arloesedd yn y dyfodol.

- Roedd dryswch ynghylch gorfodi, gydag ymholiadau ynghylch a fydd yn ofynnol i gasglwyr gwastraff orfodi'r gwaharddiad ar ddeunyddiau ailgylchadwy i safleoedd tirlenwi, a sut y bydd gorfodaeth yn gweithredu ar gyfer casglwyr sy'n gweithio ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr (sylwadau gan ddau fusnes gwastraff a chymdeithas fasnach).
- Credai un busnes gwastraff y dylai ynni o wastraff fod yn opsiwn o hyd, tra bod un arall yn pryderu am golli cwsmeriaid a niwed i enw da.

### Yr effaith ar gyrff cyhoeddus a chyrrff anllywodraethol

Mynegodd ymatebwyr amryw o effeithiau posibl ar gyrff cyhoeddus a chyrrff anllywodraethol amrywiol Cymru:

- Roedd cost yn bryder allweddol: cost biniau ychwanegol, staff neu rowndiau casglu newydd, ac ymgysylltu, arwyddion a labelu newydd.
- Gallai lle ar gyfer biniau hefyd effeithio ar gyrff cyhoeddus a chyrrff anllywodraethol/elusennau mewn ffordd debyg i'r ffordd y gallai effeithio ar fusnesau. Nodwyd y gallai symudiadau cerbydau cyrrff anllywodraethol fod yn bryder iechyd a diogelwch.
- Dywedodd un Awdurdod Lleol y bydd y rheoliadau hyn yn berthnasol i wastraff o ysgolion a pharciau, ac awgrymodd broblemau posibl ar gyfer y lleoedd hyn (e.e. amlder biniau sbwriel cymysg yn y sefyllfaoedd hyn).
- Gofynnodd un elusen sydd â chadwyn o siopau i roddion gan aelwydydd gael eu trin fel gwastraff cartref, nid gwastraff masnachol, er mwyn peidio â rhoi baich ariannol trwm ar yr elusennau hyn.
- Fel y nodwyd eisoes, roedd sawl Awdurdod Lleol yn pryderu am effaith bosibl gorfodi ar CNC, gan gwestiynu a oes gan CNC yr adnoddau ariannol a dynol angenrheidiol i gynnal arolygiadau gwastraff busnes.

### Effaith y cynigion ar leoliadau gofal iechyd

Er eu bod wedi'u cynnwys yn y categori "cyrrff cyhoeddus", tynnwyd sylw at yr effeithiau posibl ar leoliadau gofal iechyd, megis ysbytai, clinigau a chartrefi gofal yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac felly fe'u nodir ar wahân isod. Atebodd pedwar Bwrdd Iechyd ac un darparwr gwasanaethau brys y cwestiwn hwn, ac roedd y pryderon a godwyd ganddynt yn perthyn i bedwar maes yn fras:

- Diffyg lle, a hynny'n ddifrifol weithiau, yn enwedig ar wardiau ysbytai. Gallai hyn effeithio ar ansawdd y gofal, er enghraifft trwy leihau'r gofod sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau adsefydlu cleifion.
- Bydd nifer cynyddol o finiau yn rhoi baich ychwanegol ar staff clinigol sydd dan bwysau, sy'n gorfod gwahanu gwastraff clinigol eisoes. Mae potensial i gyfraddau heintio gynyddu gyda biniau ychwanegol; honnwyd bod cyflwyno cynwysyddion bin newydd yn groes i gynlluniau atal a rheoli heintiau cyfredol.

- Bydd costau biniau newydd, neu drefn ddi-doli a phrosesu newydd ar y safle, oriau staff newydd/uwch (e.e. porthorion), ac arwyddion ac ymgysylltu newydd yn uchel. Amcangyfrifodd un Bwrdd Iechyd y byddai'r costau oddeutu £2-2.5 miliwn.
- Perygl y gallai biniau sy'n hygyrch i'r cyhoedd gael eu halogi. Barn ymatebwyr oedd na ddylid cosbi'r GIG am arferion ailgylchu gwael gan ymwelwyr/cleifion. Dywedodd un Bwrdd Iechyd y byddai'n well ganddo barhau i anfon ei wastraff i'w losgi, yn unol â'r trefniadau presennol.

### Effaith y cynigion ar yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd ehangach

Waeth pa sector oedd eu tarddiad, roedd yr ymatebion yn aml yn gwneud sylwadau ar effaith y cynigion ar Gymru gyfan ac ar yr amgylchedd naturiol.

- Roedd sylwadau cadarnhaol gan chwe ymatebydd yn cynnwys y potensial i fwy o ailgylchu gan fusnesau gyfrannu at economi gylchol a llai o wastraff o adnoddau naturiol; mae llawer o ymatebwyr yn credu y bydd y cynigion yn newid agweddau at wastraff ac yn cynyddu cyfraddau ailgylchu, ac roeddent yn cefnogi hyn. Galwodd tri chorff anllywodraethol am newid iaith – heb gyfeirio mwyach at unrhyw ddeunyddiau fel 'gwastraff' neu 'sbwriel' – i hwyluso hyn.
- Roedd nifer tebyg o ymatebwyr yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio mwy ar leihau ac aildefnyddio gwastraff, yn hytrach nag ailgylchu.
- Credai un ymatebydd (corff anllywodraethol) y byddai'r cynigion yn lleihau tipio anghyfreithlon a thafu sbwriel, tra bod Awdurdod Lleol a chymdeithas fasnach yn credu y gallai cyfraddau tipio anghyfreithlon gynyddu oherwydd diffyg cydymffurfiaeth gan fusnesau.
- Roedd sawl ymatebydd (dau fusnes gwastraff, Awdurdod Lleol a chymdeithas fasnach) yn cwestiynu rhagdybiaethau sylfaenol y modelu, er enghraifft, prisiau deunyddiau, ac a fydd mwy o wahanu yn cynyddu'r deunyddiau sy'n cael eu hailgylchu, gan ofni na fydd y buddion ariannol a ragwelir yn cael eu gwireddu. Nodwyd ansicrwydd hefyd ynghylch effaith y cynlluniau dychwelyd ernes a chyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr ar gyflwyniad a chyfaint gwastraff.
- Roedd sawl ymatebydd arall o'r farn nad oedd yr allyriadau carbon o'r cynnydd mewn symudiadau cerbydau wedi cael eu cyfrif yn briodol, ac y gallai mwy o gerbydau ar y ffyrdd achosi mwy o beryglon iechyd.
- Cododd y diwydiant gweithgynhyrchu sment y potensial ar gyfer mwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr o ddisodli ynni-o-wastraff â glo mewn odynau sment. Amcangyfrifodd un ymatebydd "pe bai tanwyddau sy'n deillio o wastraff yn cael eu gwahardd yn anfwriadol o odynau sment yng Nghymru a'u disodli gan lo, dros y cyfnod o ddeng mlynedd rhwng 2020 a 2029, byddai allyriadau o weithgynhyrchu sment yng Nghymru yn cynyddu tua 0.4 miliwn tunnell, yn seiliedig ar lefelau cynhyrchu a chymysgedd tanwydd 2018."

**Cwestiwn 6: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'n cynigion i gael busnesau i ailgylchu mwy o wastraff yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith y byddent yn ei chael o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Roedd tua hanner yr ymatebwyr wedi gadael y cwestiwn hwn yn wag neu wedi nodi 'Dim ymateb'.

Darperir yr ymatebion i Gwestiwn 6, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o sefydliad a ymatebodd, yn Nhabl 6.

*Tabl 6: Ymatebion, yn ôl y math o sefydliad, i Gwestiwn 6 – Barn am yr effeithiau y byddai'n cynigion i gael busnesau i ailgylchu mwy o wastraff yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Math o sefydliad	Nifer yr ymatebion				
	Negyddol	Cadarnhaol	Dim effaith	Arall	Cyfanswm ymatebion
Busnes	0	2	9	3	14
Unigolyn	0	0	7	1	8
Awdurdod Lleol	1	1	4	4	10
Corff Anllywodraethol	0	1	3	2	6
Corff Cyhoeddus Arall	0	4	4	4	12
Corff Proffesiynol	0	0	1	0	1
Cymdeithas Fasnach	0	0	1	0	1
Cyfansymiau	1	8	29	14	52

Roedd rhai cwestiynau ynghylch a fyddai'r Rheoliadau newydd i bob pwrpas yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol (gydag angen ychwanegol i gynhyrchu llenyddiaeth, cynllun lliwiau ac arwyddion dwyieithog) na fyddent yn berthnasol i Gwmnïau Rheoli Gwastraff annibynnol nad ydynt wedi'u rhwymo gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cafwyd sylwadau cyffredinol ar gyfathrebu â phobl mewn busnesau, yn enwedig lle nad yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf, er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r newidiadau a'r hyn a ddisgwylir gan bobl, e.e. gweithwyr siopau, staff blaen tŷ a chwsmeriaid.



**Cwestiwn 7: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y cynigion er mwyn cael effeithiau positif, neu fwy o gyfleoedd positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, o ran peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn eu bod yn gweithredu o fewn deddfwriaeth gyfredol y Gymraeg ar hyn o bryd. Dywedodd y gweddill nad oes ganddynt unrhyw sylw neu eu bod yn teimlo na fyddai'n effeithio ar eu gweithrediadau presennol.

### Busnesau

Nododd nifer o gynrychiolwyr busnes a ymatebodd y dylid cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r saith amcan mewn perthynas â chynaliadwyedd – gan nodi bod un o'r rhain yn cyfeirio at y Gymraeg.

Hwyrach y bydd angen i'r cyrff hynny sydd â dyletswydd o dan y Ddeddf feddwl am y goblygiadau.

Nododd rhai ymatebwyr fod addysg yn chwarae rhan ganolog wrth ymgysylltu i aildefnyddio ac ailgylchu, a bod addysg yng Nghymru yn cael ei darparu'n ddwyieithog.

### Awdurdodau Lleol

Nodwyd bod gan bob Awdurdod Lleol gontractau sy'n cynnwys cymalau i ddatgan bod yn rhaid i'w holl isgontractwyr gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, sy'n annog eu contractwyr i wneud yr un peth â'r cyngor; fodd bynnag, nid oes pwysau o'r fath ar gwmnïau preifat eraill. Felly, byddai'r Saesneg yn cael ei thrin yn fwy ffafriol gan nad oes safonau cyfatebol i fusnesau'r sector preifat gydymffurfio â nhw.

Awgrymwyd y gellid llunio cynnig o dan y darn hwn o ddeddfwriaeth y dylai'r gofynion ar fusnesau preifat sy'n darparu casgliadau ar gyfer trin ac ailgylchu gwastraff adlewyrchu rhai'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys arwyddion dwyieithog, cynllun lliwiau a gohebiaeth ddwyieithog. Byddai hyn yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 8: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:**

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r materion allweddol a godwyd (nad ydynt wedi codi yn yr atebion i unrhyw un o'r cwestiynau blaenorol):

- Mynegodd llawer o ymatebwyr bwyntiau ynghylch gorfodi'r mesurau. Roedd rhai'n cwestiynu pa ffurf y byddai'r orfodaeth yn ei chymryd a pha mor ymwthiol y byddai i fusnesau. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r orfodaeth

fod yn 'feddal' ym mlwyddyn gychwynol y polisi newydd (h.y. cymorth ac arweiniad i fusnesau wneud newidiadau), cyn symud tuag at sicrhau cydymffurfiaeth. Soniodd un am yr angen i CNC ac Awdurdodau Lleol gydweithio ar orfodi.

- Pwysleisiodd sawl ymateb yr angen am arweiniad clir neu addysg, cymorth a hyfforddiant ynghylch ailgylchu, e.e. pa blastigion y gellir eu compostio, pa rai y gellir eu hailgylchu a pha rai y mae'n rhaid iddynt fynd i safleoedd tirlenwi. Gofynnodd rhai busnesau am gymorth ariannol i weithredu hyfforddiant staff mewn mesurau ailgylchu newydd. Awgrymwyd un cynllun cod lliw ar draws pob ardal Awdurdod Lleol er mwyn gwella eglurder y system.
- Mynegodd llawer o ymatebion ddryswch, neu gofynnwyd am eglurhad, ynglŷn â diffiniadau (e.e. beth mae "gwastraff bwyd" yn ei gynnwys - a yw'n cynnwys gwastraff hylifol fel llaeth ac olew coginio, porthiant anifeiliaid, gwastraff fferm, bwyd nas defnyddiwyd o fewn deunydd pacio)?
- Mynegwyd dryswch ynghylch sut olwg fyddai ar y drefn gasglu 'ar lawr gwlad' (e.e. a fyddai modd cyflwyno'r deunyddiau ailgylchadwy mewn bagiau ar wahân, ond eu rhoi yn yr un bin? A fydd angen Cyfleusterau Adfer Deunyddiau o hyd?).
- Mynegodd pedwar ymatebydd bryderon am y gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd (dau Fwrdd lechyd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'r Gymdeithas Cyflenwyr Offer Arlwyo). Roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys: bydd y gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffosydd yn achosi i weithgynhyrchwyr gwaredwyr gwastraff bwyd (FWD) a chompostwyr caeedig (IVC) golli elw, cwsmeriaid ac o bosibl swyddi; gall y gofyniad i gyflwyno gwastraff bwyd i'w gasglu beryglu diogelwch mewn carchardai. Dywedodd y Byrddau lechyd fod offer dad-ddyfrio eisoes ar waith mewn sawl ysbty, a'i fod yn lleihau gwastraff bwyd. Credai rhai y dylid caniatáu i ysbtyai falu gwastraff bwyd a'i waredu i'r garthffos o hyd, tra teimlai un arall y dylid dad-ddyfrio gwastraff bwyd ac yna ei anfon i'w dreulio'n anaerobig.
- Gofynnodd sawl ymateb am eithriadau penodol i'r canllawiau, neu am ystyriaeth bellach, ar gyfer: addoldai, cartrefi gofal, llety gwarchod a gofal plant preifat. Roedd siopau elusenol yn pryderu y byddai ailgylchu tecstilau gorfodol yn effeithio'n wrthnysig ar eu sector trwy leihau rhoddion.
- Galwodd sawl ymatebydd am i weithgynhyrchwyr/lleuwyr deunydd pacio gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu cynnyrch. Roedd rhai'n cwestiynu sut y byddai'r mesurau'n rhyngweithio â'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) arfaethedig. Roedd un busnes gwastraff yn pryderu am wahaniaeth posibl o ran dosbarthu arian o'r cynllun EPR rhwng Awdurdodau Lleol a darparwyr gwastraff preifat.
- Roedd pum ymatebydd o'r farn y dylid defnyddio deunyddiau ailgylchadwy yn y DU/Cymru ac na ddylid eu cludo dramor, gan arwain at fwy o fuddsoddi a datblygu seilwaith ailbrosesu yng Nghymru, gyda chais am gyllid penodol ar gyfer hyn.
- Dywedodd yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch (HSE) fod yn rhaid cynnal asesiadau risg llawn cyn cyflwyno unrhyw wasanaeth casglu newydd;

fodd bynnag, ni ddylai lechyd a Diogelwch fod yn esgus dros beidio â chasglu ar wahân. Mae canllawiau lechyd a Diogelwch ar gyfer casglu ar wahân ar gael gan yr HSE.

- Mynegodd un busnes fater gwastraff o farchnadoedd bwyd a gwyliau, yn enwedig y ddarpariaeth ar gyfer plastigion y gellir eu compostio a deunydd pacio papur ar gyfer cludfwyd. Honnodd yr ymatebydd hwn mai dim ond un cyfleuster sy'n gallu prosesu'r ffrwd wastraff hon yng Nghymru ar hyn o bryd, ac nad yw'r rhan fwyaf o dreulwyr gwastraff bwyd yn derbyn y math hwn o wastraff ar hyn o bryd. Gofynnodd a fydd gwyliau yn cael eu heithrio o'r rheoliadau hefyd.
- Gofynnodd rhai ymatebwyr sut mae'r newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd â pholisïau eraill – y Strategaeth Genedlaethol (Ffyniant i Bawb) a'r Nodau Llesiant.

#### **4 Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf**

Bydd yr ymatebion yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth.

Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd wedi codi materion yn yr ymgynghoriad (er enghraifft, y sector gofal iechyd) ac yn gweithio gyda nhw wrth ddatblygu'r rheoliadau manwl, er enghraifft i benderfynu a ddylai unrhyw eithriadau posibl fod yn berthnasol. Drwy Gronfa'r Economi Gylchol, rydym eisoes wedi bod yn cefnogi busnesau a chyrrff y sector cyhoeddus i baratoi ar gyfer y newidiadau mewn rheoliadau ailgylchu.

Bydd y rheoliadau'n cael eu datblygu er mwyn dod â hwy gerbron y Senedd yn ddiweddarach yn 2021. Hefyd, byddwn yn paratoi canllawiau ar gyfer y rhai a fydd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau hyn, ac yn ymgysylltu â hwy, cyn i'r rheoliadau ddod i rym.

Fel y nodwyd eisoes, rydym yn cynnig y bydd y rheoliadau a'r dyletswyddau'n dod i rym ym mis Hydref 2021, ac eithrio'r elfennau hynny sydd eisoes wedi dod i rym trwy drosi Pecyn Economi Gylchol yr UE 2018 fel y cyfeirir ato yn adran 2.1.

Hefyd, mae'r rheoliadau yn rhan allweddol o'r camau gweithredu a nodir yn ein hymgyngghoriad ar strategaeth economi gylchol newydd, *Mwy nag Ailgylchu*, a gyhoeddir yn gynnar yn 2021. Mae economi gylchol yn ymwneud â pharhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd ag y bo modd ac osgoi gwastraff. Bydd y modd rydym yn rheoli ac yn gwerthfawrogi ein hadnoddau, gan gynnwys y rhai y cyfeirir atynt yn yr ymgynghoriad hwn, yn allweddol i'r newid hwn.

## Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys yr ymatebwyr hynny a ofynnodd am i'w hymateb gael ei gadw'n gyfrinachol.

Enw/Sefydliad	Math
<b>Abergavenny Fine Foods</b>	Busnes
<b>Alupro</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Amgen Cymru</b>	Busnes
<b>Antur Waunfawr</b>	Busnes
<b>Cymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS)</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Offer Domestig</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</b>	Arall (Corff Cyhoeddus)
<b>Biffa</b>	Busnes
<b>Cyddfederasiwn Gweithgynhyrchwyr Gwydr Prydain</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Cymdeithas Parciau Gwyliau a Chartref Prydain</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Ffederasiwn Plastigion Prydain</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Cymdeithas Diodydd Meddal Prydain</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</b>	Awdurdod Lleol
<b>Glandŵr Cymru</b>	Corff Anllywodraethol
<b>Cyngor Caerdydd</b>	Awdurdod Lleol
<b>Prifysgol Caerdydd</b>	Arall (Corff Cyhoeddus)
<b>Carol Richardson</b>	Unigolyn

<b>Cymdeithas Cyflenwyr Offer Arlwyo (CESA)</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Catherine Brown</b>	Unigolyn
<b>Gwasanaethau Technegol Ceredigion</b>	Awdurdod Lleol
<b>Chris Brown</b>	Unigolyn
<b>Chris Moorman</b>	Unigolyn
<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Gwasanaethau Cymdogaeth</b>	Awdurdod Lleol
<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai</b>	Awdurdod Lleol
<b>Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf</b>	Arall (Corff Cyhoeddus)
<b>DS Smith</b>	Busnes
<b>Dŵr Cymru</b>	Arall (Corff Cyhoeddus)
<b>Ewan Drummond</b>	Unigolyn
<b>Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Ffederasiwn Bwyd a Diod</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>FRAME</b>	Corff Anllywodraethol
<b>Hanson UK</b>	Busnes
<b>Haven Automation Cyf</b>	Busnes
<b>Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)</b>	Arall (Corff Cyhoeddus)

<b>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</b>	Arall (Corff Cyhoeddus)
<b>Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE)</b>	Corff Proffesiynol
<b>Pwyllgor Ymgynghorol Ailgylchu Awdurdodau Lleol (LARAC)</b>	Arall (Corff Cyhoeddus)
<b>Mair Davies</b>	Unigolyn
<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful</b>	Awdurdod Lleol
<b>Cymdeithas Cynnyrch Mwynol</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Mission HERU Cyf.</b>	Busnes
<b>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru</b>	Corff Anllywodraethol
<b>Newmore Wallcoverings</b>	Busnes
<b>Cyngor Dinas Casnewydd</b>	Awdurdod Lleol
<b>NFU Cymru</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru</b>	Arall (Corff Cyhoeddus)
<b>Cyngor Sir Penfro</b>	Awdurdod Lleol
<b>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro</b>	Arall (Corff Cyhoeddus)
<b>Plas Farm Cyf.</b>	Busnes
<b>Cyngor Sir Powys</b>	Awdurdod Lleol
<b>Iechyd Cyhoeddus Cymru</b>	Arall (Corff Cyhoeddus)
<b>Rachel Pillar</b>	Unigolyn
<b>REPIC Cyf.</b>	Busnes
<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf</b>	Awdurdod Lleol
<b>RSPCA Cymru</b>	Corff Anllywodraethol

<b>Cwmni Masnachu Byddin yr Iachawdwriaeth</b>	Busnes
<b>Solon Security</b>	Busnes
<b>Cymru Gynhaliol</b>	Corff Anllywodraethol
<b>Tarmac</b>	Busnes
<b>Tenovus Cancer</b>	Corff Anllywodraethol
<b>Cymdeithas yr Ailgylchwyr Pren (WRA)</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen</b>	Awdurdod Lleol
<b>Grŵp TYF</b>	Busnes
<b>Unisan UK</b>	Busnes
<b>Anhysbys</b>	Unigolyn
<b>Anhysbys</b>	Unigolyn
<b>Anhysbys</b>	Unigolyn
<b>Gwasanaeth Gwaed Cymru</b>	Arall (Corff Cyhoeddus)
<b>Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (WESA)</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)</b>	Arall (Corff Cyhoeddus)
<b>Consortiwm Manwerthu Cymru (WRC)</b>	Cymdeithas Fasnach
<b>Williams a Williams Cyf</b>	Busnes
<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam</b>	Awdurdod Lleol
<b>Zero Waste International Trust</b>	Corff Anllywodraethol